



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg

Mwy na geiriau

Cynllun Pum Mlynedd, 2022-27

llyw.cymru



Cynnwys

- 3** Adran 1: Rhageiriau'r Gweinidogion
- 8** Adran 2: Cyd-destun a Gweledigaeth
- 12** Adran 3: Y Cynllun
- 29** Adran 4: Monitro'r Cynnydd
- 31** Adran 5: Edrych i'r Dyfodol
- 32** Atodiad A: Ymarfer Mapio Data

ADRAN 1

Rhageiriau'r Gweinidogion

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dychmygwch yr olygfa – mae hen wraig sydd wedi byw mewn cymuned glos Gymraeg gydol ei hoes yn dioddef mwy a mwy gyda dementia, ac yn cael ei hanfon yn ddisymwth i ysbyty neu i gartref gofal lle mai Saesneg yw'r brif iaith. Os nad yw'r wraig yn gallu deall yn iawn beth sy'n digwydd iddi oherwydd nad yw ei gofalywyr yn gallu siarad yr un iaith â hi, mae hi'n debygol o fynd yn fwy rhwystredig, a gallai hynny effeithio ar ei chanlyniadau clinigol. Rydym wedi dangos ers tro ein bod yn ceisio cynnig yr opsiwn o drafod ein hanghenion iechyd a gofal fwy a mwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyna pam, ar ôl pum mlynedd gyntaf *Mwy na geiriau* – ein cynllun sy'n egluro sut rydym yn cyflawni ein gweledigaeth o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg – rydym yn gwybod bod angen i ni gynnig mwy, a hynny'n gyflymach.

Pan fydd unigolion yn defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, dyna pryd maen nhw'n teimlo fwyaf bregus ac emosiynol fel arfer, a dyna pam mae iaith yn bwysig. Faint ohonom sydd wedi cerdded allan ar ddiwedd ymgynghoriad â gweithiwr meddygol proffesiynol heb ddeall yr hyn gafodd ei ddweud? Nawr, dychmygwch gael y newyddion yn eich ail iaith. Pwrpas defnyddio'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar ei anghenion a'i les emosiynol, a dyma pam mae hyn mor bwysig. Mae'n arbennig o bwysig ar gyfer y meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun.

Byddaf yn hyrwyddo'r cynllun hwn dros y pum mlynedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau a'r canlyniadau, a byddaf yn cyhoeddi datganiad blynyddol a fydd yn asesu'r cynnydd yn onest, gan gynnwys y rhwystrau a'r heriau parhaus. Edrychaf ymlaen at gydweithio â'r Bwrdd Cyngori i weld sut rydym yn perfformio, a sut gallwn weithio gyda'n gilydd mewn ffordd arloesol i ddod o hyd i atebion a darparu arferion gorau ar draws y system gyfan.

Mae'r maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael cyfnod heriol yn ystod y pandemig, a bydd yn dal o dan bwysau wrth i ni fynd i'r afael â'r blaenoriaethau presennol a blaenoriaethau'r dyfodol. Mae cyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol a datblygu sgiliau iaith ein gweithlu yn bwynt gwerthu unigryw i'n system iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n falch o ddarparu gwasanaethau mewn gwlad ddwyieithog. Rwy'n ffyddiog y bydd y timau'n ymateb i'r heriau wrth gyflwyno'r cynllun, a hoffwn ddiolch i Marian Wyn Jones ac aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen am dderbyn yr her a osodais i fod yn uchelgeisiol ac yn feiddgar. Gyda'n gilydd, gallwn ymwreiddio'r diwylliant bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.



Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cyfathrebu ag unigolion yn elfen allweddol o'r broses o ddarparu gofal cymdeithasol. Mae'n helpu unigolion i ddeall beth sy'n digwydd iddyn nhw ac o'u cwmpas, ac yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel ac yn fodlon. Mae'r miloedd lawer o staff ym maes gofal cymdeithasol yn rhyngweithio ag unigolion sawl gwaith y dydd, a bydd rhan helaeth o hynny'n galw am gyfathrebu.

Mae sgiliau Cymraeg y gweithlu'n hollbwysig er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg, a sicrhau llwyddiant y cynllun *Mwy na geiriau*. Rydym yn gobeithio y bydd cydweithwyr eisiau dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau presennol. Ond dydy hynny ddim yn golygu ei bod yn rhaid i bawb fod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gallu dweud ychydig eiriau yn Gymraeg yn gallu mynd yn bell – gall hynny gynnwys geiriau o gysur neu gynnig “paned”. Does dim ots faint o eiriau Cymraeg sydd gennych chi – yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn defnyddio'r Gymraeg. A hyd yn oed os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, mae deall ychydig bach o anghenion siaradwyr Cymraeg yn gallu mynd yn bell.

Gwelwyd ymhellach yn ystod pandemig Covid-19 pa mor bwysig yw darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn enwedig i unigolion sy'n teimlo'n fregus. Doedd perthnasau a ffrindiau ddim yn gallu mynd gydag unigolion i leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol nac ymweld â nhw yno, ac felly roedd yn bwysicach cael geiriau o gysur ac anogaeth yn Gymraeg gan ofalwyr.

Pobl hŷn oedd llawer o'r unigolion hyn, ac iddyn nhw mae derbyn gwasanaethau yn Gymraeg yn aml yn fater o angen. Mae hyn yn arbennig o wir i bobl sydd â dementia, lle mae'n hollbwysig bod asesiadau'n cael eu darparu yn Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu IAITH: Y Ganolfan Cynllunio Iaith gyda Phrifysgol Bangor i gynnal ymchwil ar fersiynau Cymraeg o raddfeydd asesiadau gwybyddol a ddefnyddir yn aml yng Nghymru, sy'n golygu bod modd dehongli'n hyderus yr asesiadau a gynhelir mewn cyd-destun clinigol.

Wrth gwrs, mae angen gwneud mwy, ac ni allwn gyflawni popeth dros nos. Roedd cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol bob amser yn mynd i fod yn daith sy'n perthyn i bob un ohonom. Gall pawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wneud gwahaniaeth drwy ofyn i'w hunain, “beth alla i ei wneud i helpu i wella'r ddarpariaeth Gymraeg?”, a gwneud y daith honno mor esmwyth â phosibl. Gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, a dylai pob un ohonom hefyd allu derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Mae iaith a gofal yn mynd law yn llaw, ac mae'r cynllun yma'n dod â'r ddwy elfen at ei gilydd i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael eu trin a derbyn gofal yn ddiogel, a gydag urddas a pharch.



Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae'r Gymraeg yn elfen hanfodol i lawer o siaradwyr Cymraeg wrth iddyn nhw gael gofal a chymorth, ond mae'r angen i dderbyn eu gwasanaethau'n Gymraeg yn fwy ymysg rhai grwpiau. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, lle gall y Gymraeg wneud gwahaniaeth enfawr i'w gofal a'u hadferiad.

Rwy'n fatch bod y cynllun hwn yn dal i enwi defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl fel un o'r grwpiau blaenoriaeth, ac yn cydnabod bod angen gwneud mwy i wella ansawdd y gwasanaethau hyn a sicrhau bod mwy ohonyn nhw ar gael. Nid dim ond er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth, ond er diogelwch a pharch i gleifion.

Wrth drafod ein hiechyd meddwl, un o'r pethau pwysicaf i'r unigolyn yw gallu cyfathrebu'n effeithiol er mwyn mynegi teimladau, meddyliau ac emosiynau. Bu'r blynyddoedd diwethaf yn arbennig o heriol i lawer oherwydd effaith y pandemig. Bydd plant a phobl ifanc yn arbennig wedi teimlo'n bryderus wrth ddelio gyda gwaith ysgol neu brifysgol. Gall iechyd meddwl pobl gael ei effeithio ar unrhyw adeg. Dychmygwch felly pe byddech yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf a bod angen i chi drafod eich teimladau personol a derbyn cefnogaeth yn y Saesneg, iaith nad yw'n rhan o'ch synnwyr chi o'ch hunan na'ch personoliaeth. Dyna pam ei bod hi'n hanfodol mynd ati i gynnig gofal iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg, oherwydd gallai unigolion wynebu amgylchiadau sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiymadferth sy'n golygu ei bod yn anodd, os nad yn amhosibl, mynnu neu gwyno.

Er bod enghreifftiau o arferion da, mae angen i ni rannu'r rhain er mwyn annog mwy o ddefnydd o'n hiaith ar draws y sector. Bydd arweinyddiaeth a newid y diwylliant yn elfennau allweddol i ddechrau gwneud newidiadau, a gwn y bydd pob gweithiwr mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r rhan sydd ganddyn nhw i'w chwarae yn y broses o wireddu'r weledigaeth hon.

Llesiant yr unigolyn sy'n bwysig mewn gwasanaethau iechyd meddwl, felly mae angen i ni feddwl am yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, nid dim ond gwneud yr un pethau rydym wedi'u gwneud erioed oherwydd mai dyna sy'n teimlo'n gyfforddus i ni. Wedi'r cyfan, ym maes iechyd meddwl mae siarad eich iaith eich hun yn rhan o'r therapi.



Marian Wyn Jones, Cadeirydd y Grŵp

Mae hi wedi bod yn bleser ac yn fraint cadeirio'r grŵp gorchwyl a gorffen *Mwy na geiriau*. Mae'n bwnc sy'n agos iawn at fy nghalon.

Nod fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw helpu siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Fel y dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mewn araith yn ddiweddar, mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, lle bynnag rydym yn byw yng Nghymru, a faint bynnag rydym yn siarad neu'n defnyddio'r Gymraeg.

Wrth wraidd hyn y mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol. Mae'n gosod cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnis gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach nag ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth i orfod gofyn amdanynt. Er mai nod y fframwaith pan gafodd ei gyhoeddi dros 10 mlynedd yn ôl oedd helpu i sicrhau bod mwy o wasanaethau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg, mae'n ymddangos bod y momentwm wedi arafu. Fel y nodwyd yng ngwerthusiad annibynnol Ymchwil ARAD ac OB3, nid yw'r fframwaith wedi llwyddo i gyflawni'r newid sylweddol angenrheidiol.

Mae'r cynnydd wedi bod yn anghyson, gydag amrywiaeth eang o ran ansawdd a nifer y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Clywsom storïau torcalonnus gan gleifion bregus sy'n rhan o system sydd, yn rhy aml, ddim yn gwerthfawrogi pwysigrwydd iaith, ac y gall ychydig o Gymraeg wneud gwahaniaeth enfawr i gleifion, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth penodol fel iechyd meddwl, plant,

pobl hŷn, strôc neu bobl sydd ag anawsterau dysgu. Roedd y Gweinidog Iechyd wedi gofyn i ni ddatblygu cynllun pum mlynedd uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn.

Roedd ein cylch gorchwyl yn gofyn i ni ystyried profiad cleifion a thystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, gweision sifil, rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol, rhanddeiliaid o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol a thu hwnt, ac o'r sectorau addysg a hyfforddiant hefyd. Rydym wedi gweld bod angen mynd ati ar frys i brif ffrydio'n hiaith a chryfhau arweinyddiaeth y system ac atebolrwydd ar bob lefel. Mae'n rhaid rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio, comisiynu a hyfforddi'r gweithlu er mwyn i ni fynd ati'n briodol i nodi a datblygu'r gallu i gyflawni. Rhaid i systemau digidol, prosesau a threfniadau cipio data sefydlu egwyddorion dwyieithrwydd wrth gynllunio a datblygu.

Yn anffodus, nid yw'r canfyddiadau hyn yn rhai newydd. Cyfeirir at egwyddorion *Mwy na geiriau* mewn nifer o ddogfennau polisi a deddfwriaeth, fel Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, y mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd brofi eu bod yn cydymffurfio â nhw. Serch hynny, gwelsom ddiffyg ymwybyddiaeth syfrdanol o'r Cynnig Rhagweithiol, heb fawr ddim tystiolaeth o gyfeirio ato mewn cynlluniau go iawn. Mae hefyd yn aneglur pwy sy'n cael ei ddal yn atebol ar hyn o bryd am gyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol, a sut mae hynny'n digwydd. Mae hyn yn her, sy'n gofyn am newid diwylliannol enfawr. Heb y newid diwylliannol hwnnw, ni fyddwn yn gweld y newid angenrheidiol.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae wedi bod yn galonogol gweld ymateb pragmataidd nifer o sefydliadau ac arweinwyr, sydd wedi addo eu cefnogaeth i sicrhau ansawdd a chysondeb i bobl Cymru. Yn wir, mae yna enghreifftiau nodedig o gynnydd gwych mewn nifer bach o sefydliadau a phocedi o arferion da mewn sefydliadau eraill y gellir, ac y dylid, eu hefelychu ledled Cymru.

Ar ran fy nghydweithwyr, Dr Dafydd Trystan, Sarah McCarty, Morwena Edwards, Huw Owen ac Eleri Jenkins, hoffwn ddiolch i'r tîm polisi iaith am eu harweiniad a'u cefnogaeth, ac rydym yn hynod ddiolchgar i lawer o bobl eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol am eu cyfraniadau cadarnhaol a'u hymrwymiad i'r gwaith hwn. Rydym yn gobeithio y bydd ein cynllun pum mlynedd yn gosod sylfeini cadarn a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell, ac y bydd y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymwreiddio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn i gleifion ac unigolion Cymraeg eu hiaith allu cael gafael yn rhwydd ar y gofal maen nhw'n ei haeddu a'i angen.



ADRAN 2

Cyd-destun a Gweledigaeth

Y Gymraeg: mae'n perthyn i ni i gyd. Mae'n bwysig i ni gydnabod y cysyniad o angen ieithyddol. Dylai derbyn gwasanaethau'n Gymraeg, yn enwedig pan fyddwn ar ein mwyaf bregus, fod yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae safonau proffesiynol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dweud bod cyfathrebu'n effeithiol yn ofyniad allweddol, ac maen nhw'n pwysleisio'r angen i gynnal urddas a pharch. Felly, dylai mabwysiadu a chyflwyno *Mwy na geiriau* helpu i wella ansawdd y gofal a roddir i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog.

Cafodd ei arwyddocâd ei gydnabod yn ffurfiol dros 10 mlynedd yn ôl ym mis Ionawr 2011, pan sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywio annibynnol i ddatblygu fframwaith strategol i hyrwyddo'r Gymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Cyhoeddwyd *Mwy na geiriau* ym mis Tachwedd 2012 ar ôl ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, cynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, rhanddeiliaid, rheoleiddwyr a'r byd academaidd. Roedd yn amlinellu cyfres o amcanion allweddol, gyda chynlluniau gweithredu i'w ategu – un ar gyfer y GIG, ac un ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y ddau fframwaith strategol olynol a gyhoeddwyd yn 2016 a 2019 yn ceisio sicrhau dull gweithredu mwy integredig, gydag un cynllun gweithredu ar gyfer y ddau sector. Roedd y cynllun, a gyhoeddwyd yn 2016, yn cynnwys saith maes blaenoriaeth, gan roi anghenion yr unigolyn wrth galon y gofal. Roedd yn ceisio cael mwy o gydnabyddiaeth ymysg darparwyr gwasanaethau nad mater o ddewis yn unig yw defnyddio'r Gymraeg, ond ei

fod yn fater o angen hefyd. Arweiniodd hyn at fwy o bwyslais ar ganlyniadau i helpu i sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn deall beth allai'r fframwaith ei olygu iddyn nhw, gyda'r Cynnig Rhagweithiol yn elfen graidd o bob fframwaith. Roedd strwythur cynllun gweithredu 2019 yn canolbwyntio ar dair thema Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg.

Mae Cynnig Rhagweithiol yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu diwylliant sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i fynd ati i gynnig gwasanaethau Cymraeg er mwyn i bobl allu cael gofal, fel partneriaid cyfartal, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd nifer o grwpiau wedi cael eu henwi mewn cynlluniau gweithredu a fframweithiau blaenorol fel grwpiau blaenoriaeth i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys:

- plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- pobl ag anableddau dysgu
- defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl
- pobl sy'n byw â dementia
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi iaith a lleferydd.

Bu nifer o newidiadau deddfwriaethol sylweddol ers y tro cyntaf i'r cynllun *Mwy na geiriau* gael ei gyhoeddi. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi dod yn gyfraith sy'n rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, gan ei gwneud yr unig iaith swyddogol drwy hawl (de jure) mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, gyda'r Saesneg yn swyddogol fel mater o drefn (de facto). Cafodd safonau'r Gymraeg eu cyflwyno ar gyfer gofal cymdeithasol, ac yn fwy diweddar ar gyfer iechyd, a dylai *Mwy na geiriau* gyd-fynd yn effeithiol â'r broses o weithredu'r safonau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n ceisio creu Cymru iachach lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, hefyd wedi dod yn gyfraith. Mae Cymru iachach: ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a lansiwyd yn 2018, hefyd yn rhestru camau gweithredu i wneud i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i wrando ar anghenion pobl a helpu i ddarparu mwy o ofal yn y cartref, neu mor agos â phosibl at y cartref.

Rhaid i ni hefyd gydnabod bod y byd wedi newid yn sylweddol ers i'r fframwaith olynol gael ei lansio yn 2016: mae'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac mae COVID-19 yn dal gyda ni. Mae hyn i gyd yn creu gwahanol heriau o ran ein hiaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a nifer o gyfleoedd y byddwn am fanteisio arnynt. Mae ein cynllun ar gyfer y dyfodol yn ystyried y cyd-destun hwn yn ogystal â'r **Rhaglen Lywodraethu** a'r **Cytundeb Cydweithio**.

Yn 2019 fe wnaethom gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r fframwaith *Mwy na geiriau*, ond bu oedi cyn cyhoeddi ei ganfyddiadau oherwydd y pandemig. Mae'r adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021, yn awgrymu bod nodau strategol *Mwy na geiriau* wedi magu mwy o stêm ym maes gofal cymdeithasol nag ym maes iechyd. Daw i'r casgliad bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar bob un o'r saith amcan, ond na ellid ystyried bod unrhyw un ohonynt wedi cael eu cyflawni'n llawn.

Roedd yn pwysleisio bod *Mwy na geiriau* wedi gosod cyfeiriad strategol clir, ac wedi codi ymwybyddiaeth o'r angen i barhau i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg mewn nifer o feysydd. Drwy osod egwyddor y Cynnig Rhagweithiol wrth wraidd ei nodau strategol, roedd *Mwy na geiriau* wedi cyfleu pwysigrwydd darparu gwasanaeth Cymraeg – nid yn unig fel hawl neu ddewis, ond fel angen hanfodol i nifer o siaradwyr Cymraeg. Mae'r prif elfennau llwyddiant yn cynnwys defnyddio mwy ar arwyddion gweledol i ddangos bod staff yn siarad Cymraeg; buddsoddi mewn cyrsiau addysg uwch ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael yn Gymraeg; a phwyslais o'r newydd ar bwysigrwydd darpariaeth Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol mewn rhaglenni addysg uwch a chynefino ar gyfer gweithwyr.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod *Mwy na geiriau* wedi ennyn diddordeb ac ymrwymiad ymysg llunwyr polisiâu ar lefel strategol a rhywfaint o ymarferwyr rheng flaen, ond iddo fod yn llai llwyddiannus ar lefel cynllunio gweithredol. Mae'r cynnydd yn y meysydd blaenoriaeth hynny wedi bod yn siomedig iawn. Mae ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol yn fratiog a dweud y lleiaf. Mae yna heriau mawr o ran deall pwysigrwydd cynnig gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg yn eu hiaith gyntaf, a deall sut i gyflwyno'r gwasanaethau hynny'n effeithiol o safbwynt ymarferol. Er enghraifft, yn ôl arrolwg 2019 o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu¹ doedd chwech o bob deg meddyg teulu ddim hyd yn oed yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol. Er bod 75% o bractisau yn credu bod ganddyn nhw ddigon o staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion ieithyddol eu cleifion, llai na hanner y staff hynny sy'n dweud eu bod yn gwisgo bathodyn/laniard iaith Gwaith. O ganlyniad, mae gwasanaethau Cymraeg wedi bod yn gyfyngedig a sgiliau Cymraeg wedi cael eu tanddefnyddio. Nid yw'r sector wedi targedu hyfforddiant yn strategol

1 <https://llyw.cymru/gweithlu-gofal-sulfaenol-ar-iaith-gymraeg>

tuag at feysydd blaenoriaeth lle mae'r angen mwyaf, ac mae tystiolaeth yn dangos y byddai ymarferwyr gofal sylfaenol yn falch o gael rhagor o gefnogaeth ac arweiniad ar weithredu'r Cynnig Rhagweithiol.

Mae prinder data cyson am sgiliau Cymraeg y gweithlu a chleifion wedi bod yn rhwystr pellach rhag cyflawni amcanion y fframwaith yn llawn, ynghyd â diffyg systemau a phrosesau i gasglu a rhannu data'n rhwydd. Rhaid i'n cynllun ar gyfer y dyfodol roi sylw i hyn.

Mae'n ymddangos bod dealltwriaeth rhai rhanddeiliaid o rôl *Mwy na geiriau* a'r angen amdano wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf wrth i Safonau'r Gymraeg hawlio diddordeb, sy'n ddealladwy. Yn ôl y canfyddiadau mae angen *Mwy na geiriau* o hyd, ac mae'n bosibl y bydd angen newid ei rôl o fod yn fframwaith strategol i fod yn sbardun, gan arwain y sector i helpu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol ac i ategu'r safonau. I ni, maen nhw'n rhan o'r un jig-so.

I ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad, sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol grŵp gorchwyl a gorffen

a gadeiriwyd gan Marian Wyn Jones i ddatblygu cynllun pum mlynedd. Roedd y grŵp yn cwrdd bob mis, gan weithio gyda rhanddeiliaid rhwng mis Hydref a mis Ebrill 2022. Sefydlwyd dau is-grŵp i ganolbwyntio ar y gweithlu, llywodraethu ac atebolrwydd. Bu'r Cadeirydd yn siarad â nifer o bartneriaid ac unigolion allweddol o bob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cynhaliwyd gweithdy ar-lein i randdeiliaid ym mis Mawrth i rannu camau gweithredu a themâu a oedd yn dod i'r amlwg, ac i ofyn am ragor o adborth a safbwyntiau. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r themâu, a chafodd gwybodaeth ychwanegol ei chyflwyno i ddatblygu'r camau gweithredu ymhellach. Mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol yn dal i ddenu cefnogaeth yn gyffredinol. Un o'r pethau mwyaf rhwystredig a ddaeth i'r amlwg yn adroddiad y gwerthusiad oedd prinder data ac ansawdd data i gefnogi'r broses gynllunio er mwyn gallu mesur y cynnydd yn briodol a sicrhau canlyniadau. Yn Atodiad 1, rydym wedi dechrau mapio'r data sydd ar gael. Mae angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach i ofalu ein bod, gyda'n gilydd, yn gallu cynllunio'n fwy effeithiol a monitro'r broses o gyflawni camau gweithredu yn y dyfodol.

Mae'r fframwaith hwn yn egluro sut byddwn, gyda'n gilydd, yn mynd ati i wneud cynnydd o dan y thema gyffredinol, sef **diwylliant ac arweinyddiaeth**, a'r tair thema ganlynol:

Thema 1

Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data

Thema 2

Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol

Thema 3

Rhannu arferion gorau a dull galluogol

Ein gweledigaeth a'n dull gweithredu

Ein gweledigaeth ar gyfer *Mwy na geiriau* yw bod y Gymraeg yn perthyn ac yn cael ei hymwreiddio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru er mwyn i unigolion gael gofal sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol, sy'n arwain at ganlyniadau gwell, heb orfod gofyn am hynny. Bydd pob gweithiwr mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn sylweddoli bod ganddyn nhw ran i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth hon.

Mae hyn yng nghyd-destun *Cymraeg 2050*: strategaeth y Gymraeg, sy'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Y flwyddyn 2050: Mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae miliwn o bobl yn siarad yr iaith, ac mae'n cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith ymysg pobl nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg, ac mae pawb yn cydnabod ei chyfraniad unigryw at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.

Gwireddu'r weledigaeth

Yng Nghymru, mae bron i 200,000 o staff yn darparu gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol ac iechyd – y cyflogwr mwyaf o bell ffordd yng Nghymru. Felly mae cyfle enfawr i'r maes iechyd a gofal cymdeithasol arwain y ffordd ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg, a chyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'r nifer sy'n ei siarad erbyn 2050.

Mae'r her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol. Rhaid gwthio ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol i ysbrydoli a galluogi mwy o bobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y sylfeini presennol ac yn ein tywys at gamau nesaf ein taith ieithyddol, gan nodi tri nod strategol i gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Dylai'r camau gweithredu yn y cynllun hwn helpu i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys ymwreiddio newid diwylliannol, a fydd yn helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros y pum mlynedd nesaf, a chreu seilwaith a dull o weithredu a fydd yn gwneud hyn yn bosibl. Rydym am greu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd; lle mae gweithio mewn system iechyd a gofal cymdeithasol ddwyieithog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chynnig darpariaeth Gymraeg, yn rhywbeth sy'n ennyn balchder.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn amlinellu'r ffordd o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol; er mwyn gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl yn fwy hirdymor, gan geisio atal problemau cyn iddyn nhw godi. Wrth wneud hynny mae'n gosod nodau llesiant, gan gynnwys Cymru iachach a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gan y maes iechyd a gofal cymdeithasol rôl allweddol yn y broses o gyflawni'r nod hwn.

ADRAN 3

Y Cynllun

Diwylliant ac Arweinyddiaeth

Cyd-destun

Mae'r gwerthusiad o'r cynllun *Mwy na geiriau* yn dangos bod y Gymraeg yn dal yn ystyriaeth ymylol i raddau helaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a'i bod yn dal yn gallu bod yn anodd cael gafael ar wasanaethau Cymraeg mewn sawl rhan o Gymru.

Mae arweinyddiaeth yn sbardun allweddol i roi'r cynllun *Mwy na geiriau* ar waith yn llwyddiannus. Bydd angen arweinyddiaeth gref arnom i fynd ati i weithredu i drawsnewid y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y dyfodol, i greu'r symbyliad ar gyfer newid a chreu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn y gwaith. Byddwn yn cyflawni hyn yn unol â'r egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol a ddisgwyilir ym mhob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ymchwilyr ym Mhrifysgol Bangor wedi cyfeirio at y fframwaith macro-meso, gan ddynodi cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros bennu polisi a chyfeiriad ar y lefel macro, a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar lefelau meso. Pwysleiswyd bod llawer o'r rhwystrau rhag cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn digwydd ar lefel 'meso' sef yr haen ganol, gydag ymarferwyr yn aml yn canolbwyntio ar y goblygiadau iddyn nhw eu hunain o ddarparu gwasanaethau Cymraeg, yn hytrach na chanolbwyntio ar y manteision i unigolion sy'n derbyn ac yn defnyddio gwasanaethau o'r fath. Ac er bod engreifftiau o gynlluniau gwych ar

draws y sector sy'n annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gwyddom eu bod yn aml wedi cael eu sbarduno gan ymdrechion a brwdfrydedd swyddogion y Gymraeg ac ymarferwyr unigol, yn hytrach na'u bod wedi'u hysbrydoli gan arweinwyr y system i ysgogi newid yn y system.

Rydym yn llwyr gydnabod cymhlethdod iechyd a gofal cymdeithasol, ac ni ellir gorbwysleisio maint yr her. Nid yw newid diwylliannol yn digwydd drwy systemau a phrosesau. Mae'ndigwydd drwy gydgyhyrchu a chydweithredu – o lefel y Bwrdd i'r ward, o arweinwyr i staff gofal rheng flaen – a bydd hyn yn galw am fuddsoddiad a chefnogaeth. Bydd angen i Lywodraeth Cymru, cyrff proffesiynol, rheoleiddwyr, arolygiaethau, byrddau iechyd, arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol gymryd perchnogaeth dros gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Rydym am greu diwylliant iach, lle bydd y gweithlu'n ymrwymo i'r Gymraeg, ar sail ymdeimlad o berthyn.

Nodau Allweddol

- Ymwreiddio diwylliant iach lle mae'r Gymraeg yn perthyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a chyflawni nodau ac egwyddorion *Mwy na geiriau*
- Dangos tystiolaeth o arweinyddiaeth ar bob lefel i helpu i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a sicrhau gwell canlyniadau i unigolion.

Gyda'n gilydd – camau gweithredu

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
1.	Byddwn yn gosod amcanion perfformiad personol i sicrhau bod cynllun <i>Mwy na geiriau</i> yn cael ei roi ar waith fel bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymwreiddio yn amcanion blynyddol arweinwyr y sector, ei raedru drwy sefydliadau, a'i ystyried mewn arfarniadau unigol perthnasol ar bob lefel. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Fframwaith Adroddiad Blynyddol y Cynghorau) a Chadeiryddion byrddau'r GIG.	Yr holl gyrff iechyd a gofal cymdeithasol. Llywodraeth Cymru i arwain ar amcanion ar gyfer Cadeiryddion.	Tymor Byr
2.	Dros amser, rydym yn disgwyl i'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol ddod i werthfawrogi'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud i'r profiad o ofal, sy'n ddull tymor hir o weithredu. Byddwn yn ategu cyrsiau ymwybyddiaeth ieithyddol gyda dull cyfathrebu sy'n seiliedig ar wyddor ymddygiad er mwyn sicrhau bod popeth rydym ni fel arweinwyr yn ei ddweud am y Gymraeg, ac fel sefydliadau a phartneriaethau, yn cyfrannu at y strategaeth hon. Bydd y dull hwn o weithredu yn adeiladu ar yr hyfforddiant ac ar y naratif cadarnhaol a amlinellir yn y cynllun.	Llywodraeth Cymru/Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)/Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)	Tymor Byr i Ganolig
3.	Byddwn yn disgwyl i'r rheini sydd mewn rolau arwain gymryd rhan yn ein rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwylieithog. Mae'r rhaglen hon yn gweithio tuag at ymwreiddio ysbryd Cymraeg 2050 yn niwylliant sefydliadau a'u polisiau. Yn rhy aml o lawer, mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel dim ond mater o gyfieithu neu ymarfer 'ticio'r boc' wrth ddatblygu polisi. Mae'r rhaglen hon, sy'n seiliedig ar werthoedd, yn mynd y tu hwnt i'r gwaith hwnnw i ddeall effaith bosibl holl elfennau ein gwaith ar ein hiaith—ac i ddefnyddio'r hyn sydd gennym i ddefnyddio mwy ar yr iaith.	Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Canolig
4.	Byddwn yn penodi swyddogion newid diwylliannol cenedlaethol i weithio gyda sefydliadau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol i hwyluso newid a thrawsnewid, ac i helpu ymarferwyr a rheolwyr canol i oresgyn heriau neu rwystrau wrth ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol.	Llywodraeth Cymru	Tymor Canolig gyda'r broses benodi yn cael ei chynnal yn ystod y 12 mis cyntaf.

Canlyniadau

Newid cadarnhaol mewn diwylliant, ethos, ac agwedd bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd. Hefyd, bydd arweinwyr ar bob lefel yn cefnogi ymyriadau darparu gwasanaeth er mwyn ategu'r Cynnig Rhagweithiol, ac yn canolbwyntio ar y Gymraeg yn ymarferol i drawsnewid profiad defnyddwyr.

Bydd y Gymraeg yn cael ei normaleiddio a'r Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymwreiddio ar draws y GIG a lleoliadau gofal, gydag atebolrwydd clir ymysg partneriaethau rhanbarthol i ddarparu *Mwy na geiriau*, gan flaenoriaethu grwpiau agored i niwed i ddechrau.

Thema 1

Polisiau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data

Cyd-destun

Ochr yn ochr â diwylliant iach ac arweinyddiaeth gref, mae gofyn bod gennym y cynlluniau a'r polisiau priodol. Mae angen i ni ganolbwyntio ar y Gymraeg mewn cynlluniau a pholisiau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Bydd angen gwella prosesau casglu data er mwyn rhoi'r sylfaen i ni gynllunio i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol, yn enwedig yn y meysydd angen hynny, gan baru sgiliau iaith yn y gweithlu â gofal yr unigolyn. Mae'r camau gweithredu o dan y thema hon hefyd yn cyd-fynd yn agos â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd y cynllun, sydd wedi'u hamlinellu yn Adran 4.

Nodau Allweddol

- Canfod a chasglu data a safbwyntiau unigolion a fydd yn rhoi inni'r ddealltwriaeth a'r dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau polisi ac i fonitro cynnydd.
- Bod dealltwriaeth o ofynion cynllunio ar gyfer y Gymraeg, a'u bod yn cael eu hymwreiddio mewn canllawiau a pholisiau.

Gyda'n gilydd – Camau gweithredu

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
5.	<p>Canfod a datblygu ymchwil a data a fydd yn cryfhau ein dealltwriaeth a'n gwybodaeth lleisiau a profiadau siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau, er mwyn cefnogi polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, ac i ddangos tystiolaeth o sut <i>Mwy na geiriau</i> yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau i unigolion. (Mae'r cam hwn yn cyd-fynd â'r gwaith a nodir yn adran 4 ar fapio'r data a'r broses o greu'r dangosfwrdd).</p>	<p>Prifysgolion/ Llywodraeth Cymru, Corff Llais y Dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a melinau trafod</p>	<p>Tymor Canolig</p>
6.	<p>Datblygu adnoddau i helpu i brif ffrydio ystyriaethau ynghylch y Gymraeg mewn cynlluniau a pholisiau, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth a lefelau uchel o ryngweithio â gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu llwybrau gofal Cymraeg ar gyfer unigolion agored i niwed mewn grwpiau blaenoriaeth penodol fel pobl hŷn, plant, iechyd meddwl, therapi lleferydd, anawsterau dysgu, a gwasanaethau strôc.</p>	<p>Llywodraeth Cymru/Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Tymor Hir</p>
7.	<p>Sicrhau bod canllawiau a chynlluniau cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn eglur ynghylch gofynion cynllunio ar gyfer y Gymraeg, gweithredu a mesur y broses o gyflawni allbynnau. Bydd hyn yn cynnwys Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ac asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth.</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Tymor Byr</p>

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
8.	<p>Bydd fframwaith cenedlaethol cytunedig ar gyfer casglu a chyfuno data ar sgiliau iaith yr holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ddatblygu a'i weithredu. Dylai'r fframwaith fod yn orfodol lle bynnag y bo modd, a byddai angen iddo gyd-fynd â'r systemau a'r dulliau sydd ar waith ar hyn o bryd i gasglu a chyfuno data ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg. (Mae'n bosib y bydd angen cyllid/adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni hyn).</p>	AaGIC/GCC/lechyd a Gofal Digidol Cymru/cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys contractwyr gofal sylfaenol annibynnol.	Tymor Canolig
9.	<p>Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi gan gorff priodol i ddod â data am y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd. Byddai'r adroddiad hwn yn gallu cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan Ystadegau Cymru. Dylai'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd gyda lefel bellach o fanylder ar gael fel sy'n briodol i'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am y gweithlu mewn gwahanol gyd-destunau – ee, AaGIC, GCC, Byrddau Iechyd.</p>	AaGIC/GCC, cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr/ Canolig
10.	<p>Bydd cam gweithredu 30 yn y 'Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' – datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol – yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r canllawiau hyn ystyried faint o staff â sgiliau Cymraeg sydd eu hangen, a natur y sgiliau hynny mewn gwahanol gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol ac o fewn y meysydd angen â blaenoriaeth.</p> <p>Bydd y canllawiau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r gwaith blynyddol i gynllunio'r gweithlu a wneir gan Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflogwyr eraill fel y bo'n briodol. Hefyd, bydd y canllawiau'n llywio gwaith yr arolygiaeth a'r rheoleiddwyr perthnasol fel y bo'n briodol.</p>	AaGIC / Gofal Cymdeithasol Cymru	Tymor byr

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
11.	Dylai pwysigrwydd y Cynnig Rhagweithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau o safon gael ei gynnwys yn y canllawiau a'r gofynion adrodd ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd a'r safonau iechyd a gofal diwygiedig. Daeth y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ('y Ddeddf') yn gyfraith ar 1 Mehefin 2020, a bydd yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn gwanwyn 2023. Mae hyn yn cynnwys ailffurfio ac ehangu'r ddyletswydd ansawdd bresennol ar gyrff y GIG.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr
12.	Bydd pwysigrwydd y Gymraeg wrth gynllunio a darparu yn cael ei gynnwys fel thema drawsbynciol yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol diwygiedig, a bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu trefniadau atebolrwydd <i>Mwy na geiriau</i> , gan gynnwys y dangosfwrdd.	Llywodraeth Cymru	Tymor Canolig

Canlyniadau

Gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithiol er mwyn ymwreiddio'r Cynnig Rhagweithiol.

Mae darparu'r Cynnig Rhagweithiol yn rhan annatod o'r broses o ddarparu gwasanaethau o safon ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Thema 2

Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol

Cyd-destun

Ni ddylid diystyru pwysigrwydd datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol er mwyn cyflawni nodau *Mwy na geiriau*. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn y strategaeth gweithlu ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar y cyd gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n amlinellu nodau uchelgeisiol o ran gweithlu dwyieithog.

Gan fod rhywfaint o fylchau data a gwybodaeth, ystyriwyd yn ofalus pa gamau tymor byr priodol y gellid eu cymryd mewn perthynas â'r gweithlu presennol a'r gweithlu sy'n cael ei hyfforddi i gael gwell dealltwriaeth o'n man cychwyn ym mhob rhan o Gymru, er mwyn gwybod pa ardaloedd sy'n wynebu'r her fwyaf a helpu i wneud penderfyniadau ar dargedu meysydd blaenoriaeth. Bydd y camau hyn yn cael eu hadolygu a'u hystyried ymhellach ochr yn ochr â chamau cynllunio'r gweithlu sydd wedi'u nodi o dan Thema 1.

Nodau Allweddol

Mae ein nod yn cyd-fynd ag un a nodir yn y strategaeth gweithlu ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol:

'Ein nod fydd deall, rhagweld a chynllunio i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ein gweithlu ac yn y pen draw, cleifion a phobl sy'n cael gofal a chymorth ledled Cymru wrth i ni symud ymlaen.'

Mae cefnogi ein gweithlu i ddarparu gofal gan ddefnyddio'r Gymraeg lle bo angen, yn egwyddor sylfaenol a ddylai fod yn sail i bob rhan o'r strategaeth gweithlu hon.'

Gyda'n gilydd – camau gweithredu

Y Gweithlu Presennol

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – 2023 Tymor Canolig – 2025 Tymor Hir – 2027
13.	Bydd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn dod o hyd i fylchau yn sgiliau'r gweithlu mewn meysydd allweddol ac yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â nhw. Bydd hyn yn cael ei ymwreiddio mewn cynlluniau sgiliau a gweithlu sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno mewn sefydliadau unigol, ac yn galw am weithio'n agos gydag AaGIC a GCC.	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol. AaGIC a GCC	Tymor Canolig
14.	Byddwn yn disgwyl i holl gydweithwyr y GIG a gofal cymdeithasol ddilyn cwrs ymwybyddiaeth ieithyddol, a fydd yn egluro pa mor bwysig yw'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac fel un o anghenion cleifion. Ar ôl cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn disgwyl i'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu ym mhob disgyblaeth ar gyfer hyfforddeion, a'i gyflwyno fel rhan o'r broses gynefino i weithwyr newydd sydd heb wneud yr hyfforddiant yn barod.	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Canolig
15.	Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn datblygu ymhellach eu cynlluniau i gynnig hyfforddiant ar y Gymraeg i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn darparu amgylchedd sy'n galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Dylai hyn ategu'r broses anffurfiol o ddysgu iaith drwy adnoddau ac apiau ar-lein a fydd ar gael ar draws y sector. Gellid modelu hyn ar ddatblygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gweithlu addysg. Dylai hyn gynnwys darpariaeth wedi'i theilwra i gefnogi ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a dod o hyd i gyfleoedd (law yn llaw â chyflogwyr perthnasol) i gynyddu hyder staff i ddefnyddio mwy ar eu sgiliau Cymraeg ar ba lefel bynnag yn y gweithle. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa adnoddau sydd eu hangen i ddarparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer cynllun o'r fath, gan gynnwys helpu cyflogwyr i ryddhau staff allweddol i fynd ati o ddifrif i ddysgu Cymraeg.	Llywodraeth Cymru/Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Tymor Canolig

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – 2023 Tymor Canolig – 2025 Tymor Hir – 2027
16.	Bydd sefydliadau yn diffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ym mhob hysbyseb swydd, yn unol â'r arferion gorau a welir mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Canolig (Datblygu a rhannu canllawiau yn y tymor byr)
17.	Cyflwyno'n raddol lefel "cwrteisi" sylfaenol o sgiliau Cymraeg, gan wneud staff yn fwy ymwybodol o'r effaith gadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei chael ar unigolion sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Erbyn diwedd oes y cyllun hwn, dylai pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod â lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg.	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr – Cyflwyno Tymor Hir – bod gan bob aelod o staff lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg
18.	Bydd sefydliadau'n datblygu ac yn gweithredu strategaeth gweithlu a hyfforddiant sy'n benodol ar gyfer y Gymraeg – gyda phwyslais cychwynnol ar fynd i'r afael â bylchau ym meysydd blaenoriaeth allweddol <i>Mwy na geiriau</i> , a'r rheini sy'n ddihyder (angen ystyried y posibilrwydd o weithio gydag arweinwyr tîm / rheolwyr / cyflogwyr hefyd i greu'r amodau i unigolion ddefnyddio eu Cymraeg).	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Canolig
19.	Cychwyn ymgyrch hyrwyddo ac ymwybyddiaeth genedlaethol i wneud staff yn fwy ymwybodol o'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud i'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd recriwtio sy'n cyfleu pwysigrwydd y Gymraeg. Bydd yr ymgyrchoedd yn cynnwys modelau rôl ac astudiaethau achos ar y gwahaniaeth y mae defnyddio'r Gymraeg yn ei wneud i wella canlyniadau unigolion.	Llywodraeth Cymru/GCC ac AaGIC	Tymor Canolig

Gweithlu'r Dyfodol

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – 2023 Tymor Canolig – 2025 Tymor Hir – 2027
20.	Bydd Gyrfu Cymru/AaGIC a GCC yn hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau Cymraeg a'r cyfleoedd posibl a ddaw yn sgil hynny mewn gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio adnoddau porth Tregyrfa a thrwy sioeau teithiol a sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc.	Gyrfa Cymru/AaGIC a GCC	Tymor Byr/Tymor Canolig
21.	Bydd AaGIC, CCAUC a GCC yn monitro nifer y myfyrwyr dwyieithog sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol bob blwyddyn, yn unol â'r fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer mesur sgiliau Cymraeg, ac yn cyhoeddi'r data bob blwyddyn. Gallai hyn adlewyrchu neu adeiladu ar ofynion sydd eisoes ar waith mewn perthynas â chontractau AaGIC, monitro GCC a/neu ddata HESA. O ran cyhoeddi'r data, rydym yn argymhell bod tabl penodol yn cael ei gynnwys yn y Bwletin Ystadegau blynyddol – Yr iaith Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch i adrodd ar y data yma. Bydd y data yma hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu dangosfwrdd, fel sy'n cael ei amlinellu o dan Adran 4.	AaGIC/CCAUC a GCC	Tymor Byr
22.	Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y prentisiaid a'r dysgwyr dwyieithog ³ sy'n dilyn cyrsiau a/neu brentisiaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol bob blwyddyn, yn unol â'r fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer mesur sgiliau Cymraeg, ac yn cyhoeddi'r data bob blwyddyn. Bydd y data yma hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu dangosfwrdd, fel sy'n cael ei amlinellu o dan Adran 4.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr

3 Rydym yn gwahaniaethu yma rhwng Myfyrwyr – sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch, a Dysgwyr sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach a Phrentisiaid sy'n dilyn fframweithiau prentisiaeth.

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – 2023 Tymor Canolig – 2025 Tymor Hir – 2027
23.	<p>Mae Llywodraeth Cymru / CCAUC⁴ wedi sefydlu meincnod ar gyfer darpariaeth ddwyieithog – hynny yw, bod traean o gwrs (o leiaf) ar gael yn Gymraeg. Mae meincnod o'r fath yn galluogi myfyrwyr sy'n hyderus yn y Gymraeg i ddilyn rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddatblygu lefel o hyder i weithio'n ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu arferion gorau rhyngwladol – ee, Ysgol Feddygol Prifysgol Helsinki.</p> <p>Bydd AaGIC / GCC yn gweithio gyda phrifysgolion yng Nghymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i nodi unrhyw gyrsiau lle na all y myfyrwyr ar hyn o bryd astudio traean o'u cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddwyieithog, ac yn cymryd camau priodol i sicrhau bod darpariaeth ddwyieithog yn cael ei chynnig ar bob cwrs iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd lleoliadau hefyd yn cael eu hystyried yn briodol, a bydd myfyrwyr yn cael cefnogaeth i ymgymryd â lleoliadau dwyieithog fel rhan o'u hyfforddiant.</p>	AaGIC/GCC/Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Tymor Byr
24.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gymelliadau (ariannol neu fel arall) y gellir eu cynnig i fyfyrwyr sy'n gwneud elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cymelliadau eisoes yn cael eu cynnig mewn perthynas â'r gweithlu Addysg.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr

4 Bydd deddfwriaeth newydd i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o 2023 ymlaen, a fydd yn disodli ac yn adeiladu ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac yn gyfrifol am ariannu, cyfarwyddo a goruchwylio ein sector addysg uwch ac addysg bellach, dosbarthiadau chweched mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, ac agweddau ar ymchwil ac arloesi.

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – 2023 Tymor Canolig – 2025 Tymor Hir – 2027
25.	Rhoddir ystyriaeth i ehangu Doctoriaid Yfory, cynllun hynod llwyddiannus sy'n helpu darpar fyfyrwyr i wneud cais llwyddiannus i ysgol feddygol, i gynnwys yr holl broffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol lle mae'r broses ymgeisio i astudio yn y Brifysgol yn un gystadleuol. Yn fwy cyffredinol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a allai cynllun o'r fath helpu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig i wneud cais llwyddiannus i astudio meddygaeth a phynciau eraill.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr
26.	Bydd pob darparwr hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn paratoi cynllun tymor canolig ar ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sgiliau dwyieithog eu myfyrwyr, ac yn cyflwyno'r cynllun o fewn 12 mis i'r corff comisiynu / achredu / rheoleiddio perthnasol. Dylai'r rhain gynnwys manylion y capasiti addysgu sydd ei angen i gyflwyno rhaglenni dwyieithog yn ôl yr angen. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y rôl y gallai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei chwarae i adolygu a darparu adborth a chyngor i'r cyrff perthnasol ar y cynlluniau tymor canolig.	Darparwyr hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr
27.	Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynlluniau a ddatblygwyd o dan Gam Gweithredu 30 y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac yn cymryd camau priodol i helpu i ddatblygu capasiti addysgu dwyieithog a, lle bo'n briodol, yn darparu adnoddau addas i gefnogi'r datblygiadau hyn.	Llywodraeth Cymru	Tymor Byr
28.	Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am adolygu'r ddarpariaeth ddwyieithog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y sector Addysg Bellach a phrentisiaethau, ac am wneud argymhellion fel y bo'n briodol ynghylch y camau pellach sydd eu hangen i ddatblygu sgiliau dwyieithog ymhlith dysgwyr lefelau 2 a 3.	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Tymor Canolig

Canlyniadau

Bydd gweithredu'r camau a nodir o dan y fframwaith hwn yn rhoi sylfaen gadarn i sicrhau'r canlyniadau a ddisgwylir, ac i ddatblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog yn sylweddol yn ystod y degawd nesaf:

- Mwy o allu o ran y Gymraeg ar draws y gweithlu er mwyn diwallu anghenion ieithyddol unigolion
- Mwy o allu o ran y Gymraeg ymysg wynebau newydd yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar ôl gweithredu'r camau cynllunio o dan thema 1 ochr yn ochr â bwrw ymlaen â'r camau uchod, bydd angen monitro ac adolygu'r data blynyddol gan ddarparwyr Addysg Uwch. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer cyrsiau Gwaith Cymdeithasol, gan AaGIC ar gyfer cyrsiau sy'n cael eu comisiynu gan AaGIC, gan CCAUC ar gyfer pob cwrs lechyd arall mewn Sefydliadau Addysg Uwch, a Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau Sefydliadau Addysg Bellach a Phrentisiaethau⁵

I sicrhau cynnydd, bydd yna ddull gweithredu tri cham i ymateb i'r adolygiad a fydd yn cael ei gynnwys yn fframwaith perfformiad ac atebolrwydd ehangach y cynllun, sy'n cael ei amlinellu o dan adran 4.

- **Monitro:** Pan fydd nifer y myfyrwyr sy'n graddio â sgiliau dwyieithog yn cyd-fynd ag anghenion y gweithlu, bydd y data'n cael eu monitro'n flynyddol.
- **Gosod Targedau:** Pan fydd nifer y myfyrwyr sy'n graddio â sgiliau dwyieithog (naill ai'n genedlaethol neu mewn Sefydliad Addysg Uwch penodol) ychydig yn is na'r niferoedd sydd eu hangen, bydd targedau penodol yn cael eu gosod ar gyfer hyfforddi digon o fyfyrwyr sydd â sgiliau dwyieithog. Gallai'r targedau hyn, fel y bo'n briodol, ddynodi lefel y sgiliau sydd eu hangen fel rhan o'r broses hon.
- **Targedau Rhwymol:** Pan nad yw monitro a gosod targedau wedi arwain yn gyson at y niferoedd a'r cyfuniad angenrheidiol o weithwyr proffesiynol sydd â'r sgiliau dwyieithog angenrheidiol, a phan fydd Sefydliadau Addysg Uwch yn benodol wedi cael y dasg o wella'r sefyllfa ac wedi methu gwneud hynny; dylid gosod targedau rhwymol y gellid eu cynnal drwy'r broses gontractio, y broses achredu a/neu'r broses cyllid myfyrwyr fel y bo'n briodol.

5 Byddai'r argymhelliad hwn yn gallu cael ei roi ar waith maes o law ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach gan y Comisiwn arfaethedig a fydd yn cael ei sefydlu fel rhan o ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol.

Thema 3

Rhannu arferion gorau a dull galluogol

Cyd-destun

Bydd yn hollbwysig rhannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd er mwyn i ni allu gwneud newidiadau i'r system gyfan pan fydd angen. Mae'n arwyddocaol bod y sefydliadau hynny sydd â swyddogion gweithredol blaengar sy'n arwain ar wasanaethau Cymraeg ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi gwneud llawer mwy o gynnydd. Mae galw clir ar draws y sector, gan gynnwys ymysg ymarferwyr gofal sylfaenol, eilaidd a chymdeithasol, am rannu arferion gorau yn amlach ac am gyflwyno cynlluniau effeithiol ledled Cymru. Yn ein llygaid ni, mae *Mwy na geiriau* yn cynnig cefnogaeth yn ogystal â sbarduno, ac mae gan dechnoleg ran enfawr i'w chwarae i'w gwneud yn haws i ddefnyddio'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn clystyrau gofal sylfaenol lle gwelir y rhan fwyaf o ryngweithio. Mae rheoliadau Gofal Sylfaenol bellach yn cynnwys dyletswyddau ynghylch y Gymraeg, sy'n cynnwys hyrwyddo arwyddion gweledol – gan gynnwys bathodynau i staff sy'n siarad Cymraeg ac yn fodlon cynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Mae tystiolaeth yn dangos bod arwyddion gweledol a systemau TGCh yn gallu bod yn ffactorau pwerus sy'n galluogi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol i ryngweithio mwy â'i gilydd yn Gymraeg.

Mae'r camau gweithredu a nodwyd o dan y thema hon yn ymwneud â rhannu a chreu amgylchedd cefnogol ar gyfer y Cynnig Rhagweithiol, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol er mwyn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg yn gyson ledled Cymru.

Nodau Allweddol

- Byddwn yn cydweithio â'r sector cyfan i sicrhau ein bod yn dylunio systemau'n ddwyieithog fel mater o drefn, a chyda defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg.
- Byddwn yn sicrhau bod pocedi o arferion da yn cael eu nodi, eu rhannu er mwyn cael dylanwad, ac yn gwneud dull galluogol yn bosibl ar draws y system.

Gyda'n gilydd – Camau gweithredu

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
29.	Byddwn yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o arferion da arloesol sy'n bosibl ar draws y sector gan ddefnyddio safleoedd porth a hybiau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys yr Hybiau Ymchwilio ac Arloesi.	Swyddogion y Gymraeg/ Llywodraeth Cymru	Tymor Byr
30.	Byddwn yn defnyddio'n Pecyn Cymorth Technegol Dwyieithog i sicrhau bod y gwasanaethau digidol yr ydym yn eu caffael a/neu'n datblygu yn cynnwys rhyngwyneb defnyddiwr dwyieithog lle bo hynny'n bosibl. O ran gwefannau gwybodaeth a chyngror byddwn yn dod a chyfieithwyr yn agosach at y broses creu cynnwys, gan gyd-ddrafftio yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ein bod yn cyfathrebu yn gliriach yn y ddwy iaith.	Iechyd a Gofal Digidol Cymru/ Sefydliadau'r GIG	Tymor Byr
31.	Byddwn yn darparu'r cymorth strwythuredig a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer fforymau rhanbarthol a rhwydweithiau proffesiynol <i>Mwy na geiriau</i> er mwyn cael lle sy'n ei gwneud yn bosibl i ddysgu a rhannu arferion gorau o ran cysondeb gofal ar draws cymunedau, gan roi sylw penodol i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.	Llywodraeth Cymru a Chadeiryddion Fforymau Rhanbarthol, rhwydweithiau clinigol, Colegau Brenhinol, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain	Tymor Canolig

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
32.	Byddwn yn sicrhau bod Arweinwyr Gweithredol, Hyrwyddwyr a Swyddogion y Gymraeg yn cwrdd yn genedlaethol i rannu arferion gorau er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â materion allweddol a datblygu mentrau i ddatlu llwyddiannau, gan gynnwys hyrwyddo <i>Mwy na geiriau</i> mewn cynlluniau gwobrau ac anrhydeddau sydd eisoes yn bodoli.	Llywodraeth Cymru, Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr
33.	Byddwn yn cynnal arolwg gyda darparwyr gofal sylfaenol i ddeall effaith dyletswyddau ynghylch y Gymraeg ar ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol. Bydd yr arolwg yn dangos yr arferion gorau ac yn rhoi cyngor i Gyfarwyddwyr Gweithredol Gofal Sylfaenol er mwyn datblygu a gwella gwasanaethau Cymraeg ymhellach, gan weithio'n agos gyda'r clystyrau.	Byrddau Iechyd a Chlystyrau Gofal Sylfaenol	Tymor Canolig
34.	Ei gwneud yn bosibl i ddatblygu adnoddau ac asesiadau diagnostig Cymraeg safonol er mwyn helpu siaradwyr Cymraeg mewn meysydd blaenoriaeth penodol fel iechyd meddwl, anableddau dysgu, a phobl â nam ar eu golwg. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill i ddatblygu set genedlaethol o asesiadau safonol ar gyfer siaradwyr Cymraeg sydd â dementia.	Llywodraeth Cymru	Tymor Hir
35.	Mae arwyddion gweledol nid yn unig yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg, maen nhw hefyd yn cyfleu neges bod y Gymraeg yn rhan 'arferol' o'r broses bob dydd o ddarparu gwasanaeth, ac yn adeiladu ar ethos o berthyn. Byddwn yn ymestyn y prosiect Iaith Gwaith ledled Cymru er mwyn i weithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau'n Gymraeg, neu'n rhannol gynnig gwasanaethau'n Gymraeg, allu dangos hynny'n rhwydd drwy wisgo bathodyn neu laniard Iaith Gwaith. Bydd ein systemau TGCh hefyd yn casglu, yn dangos ac yn rhannu gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i ni fel unigolion a staff pwy sy'n gallu siarad Cymraeg a pha wasanaethau y byddan nhw'n eu cynnig yn Gymraeg – er mwyn i ni allu defnyddio ein Cymraeg gyda nhw. (Mae'n bosibl bydd angen cyllid/adnoddau ychwnegol er mwyn cyflawni hyn)	Llywodraeth Cymru/Iechyd a Gofal Digidol Cymru/Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr

Cyf	Disgrifiad o'r Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
36.	Byddwn yn parhau i wella galluoedd Cymraeg systemau digidol cenedlaethol ar gyfer y maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn sicrhau bod apiau sy'n cael eu datblygu – fel Ap GIG Cymru – yn cefnogi gweledigaeth a chamau gweithredu y cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys rhannu, cofnodi a thracio gwybodaeth rhwng systemau, gan gynnwys dewis iaith. Byddwn hefyd yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau ar yr holl brosesau technegol a chynnwys i wneud yn siŵr eu bod yn hawdd eu defnyddio a'u deall yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Llywodraeth Cymru/Iechyd a Gofal Digidol Cymru	Tymor Canolig/Hir
37.	Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau geiriadurol, corpws terminoleg o safon uchel, systemau cof iaith ac adnoddau ymarferol i helpu staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft Gair i Glaf. Yn y tymor byr, bydd hyn yn cynnwys swyddogion y Gymraeg a chyfieithwyr yn cydweithio ar gasglu a chyfuno termau ynghyd â gallu a chapasiti cyfieithu.	Llywodraeth Cymru/Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Tymor Byr – cydweithio ar ddatblygu termau safonol Tymor Hir – corpws terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol
38.	Byddwn yn gweithio gyda'r rheini sy'n arolygu ac yn gwella ansawdd er mwyn sicrhau bod y cynnig rhagweithiol yn rhan o'u gwaith. Byddwn y cyfeirio sefydliadau sy'n tanberfformio at gefnogaeth cyngor priodol.	Cyrff Rheoleiddio ac Arolygu	Tymor Canolig

Canlyniadau

Bydd unigolion yn cael Cynnig Rhagweithiol yn gyson ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yn arwain at well profiad i ddefnyddwyr / cleifion a gwell canlyniadau ledled Cymru

Bydd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hysbrydoli i efelychu arferion gorau a mentrau sy'n arwain y sector mewn rhannau eraill o Gymru

ADRAN 4

Monitro'r cynnydd

Cyd-destun

Mae'n amlwg bod prinder data ac ansawdd y data i gefnogi'r broses gynllunio, a diffyg systemau a phrosesau i fesur cynnydd yn erbyn y fframwaith *Mwy na geiriau*, wedi achosi rhwystredigaeth, gan leihau gallu'r sector i gyflawni dros y 10 mlynedd diwethaf. Po amlaf rydych chi'n monitro cynnydd, y mwyaf tebygol ydych chi o lwyddo. Felly rydym yn argymhell

mapio'r data sydd ar gael a chyflwyno fframwaith rheoli perfformiad fel yr amlinellir yn y camau gweithredu canlynol, gan fesur cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu pum mlynedd i gyflawni ein hamcanion, a ddylai helpu i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol. Rydym wedi amlinellu camau gweithredu isod a fydd yn gwneud hyn yn bosibl, a fydd yn esblygu wrth wneud cynnydd ar ddata a'r broses o ddatblygu dangosyddion a dangosfyrddau. Gwyddom y bydd hyn yn arwain at ofal mwy diogel a gwell canlyniadau.

Sut byddwn yn monitro cynnydd gyda'n gilydd

Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
Datblygu ymhellach y broses o fapio'r data sydd ar gael, a ddarperir yn Atodiad A y fframwaith, a dod o hyd i fylchau data a fyddai'n helpu i fesur cynnydd	Llywodraeth Cymru	2023
Gan ddefnyddio'r data sydd ar gael pan fydd modd, datblygu dangosyddion sy'n mesur cynnydd tuag at y Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog, a dod o hyd i fylchau data a fyddai'n helpu i fesur cynnydd ymhellach.	Llywodraeth Cymru	Datblygu dangosyddion cychwynnol – 2023 Dod o hyd i fylchau data – 2023 Llenwi bylchau data pan fydd modd – 2025

Cam Gweithredu	Prif Atebolrwydd	Yr Amserlen: Tymor Byr – erbyn 2023 Tymor Canolig – erbyn 2025 Tymor Hir – erbyn 2027
<p>Sefydlu gweithgor i ddatblygu dangosfwrdd sy'n dod â data perfformiad at ei gilydd i ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys data o fframwaith perfformiad yr awdurdod lleol; AGC; AGIC; swyddfa Comisiynydd y Gymraeg; adroddiadau perfformiad / Cynllun Tymor Canolig Integredig y GIG.</p>	Llywodraeth Cymru	<p>Sefydlu gweithgor – 2023</p> <p>Cyhoeddiad cyntaf y dangosfwrdd – 2025</p> <p>Uwchgynhadledd i rannu'r dangosfwrdd â pherchnogion data – 2025</p>
<p>Bydd pob corff iechyd ac awdurdod lleol yn penodi rhywun i fod yn gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu a thargedau'r cynllun yn cael eu cyflawni.</p>	Pob corff iechyd ac awdurdod lleol	Hydref 2022
<p>Monitro cynnydd <i>Mwy na geiriau</i>: Darparu diweddariad ysgrifenedig ar y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu ar sail 12 mis</p>	Pob sefydliad atebol sydd wedi'i restru yn y cynllun hwn	Yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf – Haf 2023
<p>Sefydlu bwrdd cynghori i fonitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Bydd y Bwrdd Cynghori yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog ynghylch ble gellid gwneud cynnydd pellach, ac unrhyw bryderon a ddaw i'r amlwg am beidio â chyflawni'r uchelgais. Bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'w ystyried gan Weinidogion, ac yn cael ei rannu ag arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y bwrdd cynghori hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar ofynion archwilio a gwerthuso er mwyn darparu asesiadau annibynnol ar gynnydd.</p>	Llywodraeth Cymru	<p>Adroddiad cynghori blynyddol 2023</p> <p>Bydd yr adroddiad cynghori yn pwyso a mesur data'r dangosfwrdd o 2025 ymlaen</p>
<p>Bydd y Gweinidog yn cynnal cyfarfodydd cynnydd blynyddol ag arweinwyr y sefydliadau a restrir i gyflawni camau gweithredu'r cynllun, gan gynnwys y GIG ac Awdurdodau Lleol, i gydnabod yr hyn a gyflawnwyd ac ym mhle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.</p> <p>Bydd datganiad cynnydd yn cael ei rannu ag Aelodau'r Senedd bob blwyddyn.</p>	Llywodraeth Cymru	<p>Cyfarfod Cynnydd Blynyddol Cyntaf – Hydref 2023</p> <p>Y Datganiad Cyntaf i Aelodau'r Senedd – Hydref 2023</p> <p>O 2025 ymlaen, bydd yr adroddiad cynnydd yn cynnwys y dangosfwrdd data perfformiad</p>

ADRAN 5

Edrych i'r Dyfodol

Mae ein cynllun ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn egluro sut byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r weledigaeth, a sut byddwn yn monitro ein perfformiad.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi herio'r cynnydd ac wedi sicrhau bod llais unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wrth galon y gwaith. Mae ein cynlluniau i fonitro'r cynnydd dros y pum mlynedd nesaf yn cynnwys sefydlu Bwrdd Cyngori newydd a chyfarfodydd

cynnydd blynyddol gyda'r Gweinidog i ddisodli rôl y Bwrdd Partneriaeth. Bydd sefydliad newydd, Corff Llais y Dinesydd, yn rhan allweddol o'r gwaith o ddarparu gwybodaeth a chynghor ar sail profiad a safbwyntiau cleifion ac unigolion ar y cynnydd a wneir i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Bwrdd Cyngori newydd yn cael ei sefydlu yn ystod 2022, a bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2023.

Atodiad A

Ymarfer Mapio Data

Nod y ddogfen hon yw dwyn ynghyd y ffynonellau data sydd ar gael ynghylch y canlynol:

- i. sgiliau Cymraeg pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- ii. Cynnig Rhagweithiol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Isod gwelir crynodeb o'r ffynonellau data a allai fod yn berthnasol i'r maes hwn.

Dyma'r prif bwyntiau i'w hystyried:

- Mae 75% o bractisiau wedi dweud bod ganddyn nhw ddigon o staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion ieithyddol eu cleifion. Roedd 79% yn teimlo bod ganddyn nhw ddigon o feddygon teulu sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion ieithyddol eu cleifion. **Mae gan hanner y practisau feddyg teulu sy'n gallu darparu umgyngoriadau clinigol yn Gymraeg.**
- Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 **ei bod yn well gan 17% o siaradwyr Cymraeg gyfathrebu'n Gymraeg â staff iechyd a gofal cymdeithasol.** Yn ystod y 12 mis blaenorol, **roedd 31% wedi defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol,** ac nid oedd 69% wedi defnyddio'r Gymraeg fel hyn.
- O blith y bobl 16 oed neu hŷn a oedd yn byw yng Nghymru ac yn gweithio ym maes 'Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol' yn yr wythnos cyn Cyfrifiad 2011, roedd 16% yn gallu siarad Cymraeg yn ôl y Cyfrifiad. Y ffigur ar draws pob diwydiant oedd 17%.
- Mae arolwg 2019 o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu yn dangos bod 6% o bractisiau wedi ariannu neu ryddhau staff i ddilyn hyfforddiant ar sgiliau Cymraeg yn ystod y tair blynedd flaenorol. **Doedd 58% o'r practisiau ddim yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol ar y pryd.**
- Does gan y rhan fwyaf o bractisiau (86%) ddim polisi ar gyfer pa iaith neu ieithoedd y dylai staff eu defnyddio wrth ateb y ffôn. Dydy dros hanner y staff sy'n gallu siarad Cymraeg ddim yn gwisgo bathodyn/laniard iaith Gwaith. **Mae gan oddeutu hanner y practisau o leiaf aelod o staff derbynfa sy'n gallu siarad â chleifion yn Gymraeg.** Mae hyn yn amrywio o 94% yn Hywel Dda i 8% yn Aneurin Bevan.

- Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai **yng Ngwynedd (48%), Ynys Môn (33%) a Sir Gaerfyrddin (70%) y mae'r % uchaf o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg**. Yng Nghaerdydd y mae'r % uchaf sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg (13%). Fesul Bwrdd Iechyd, Betsi Cadwaladr a Hywel Dda sydd â'r % uchaf o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd â rhywfaint o sgiliau. **Mae 45% o'r rheini a ddywedodd eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn gweithio ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, a 24% yn Hywel Dda.** Mae'r gweddill o dan 10%. Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan sydd â'r % uchaf o weithwyr sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg, sef 21%.
- Yn ôl y Cyfrifiad o'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sydd â'r nifer uchaf o feddygon teulu sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, gyda 9.5**, ac wedyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 8.4. At ei gilydd, mae gan Gymru 6.6 o feddygon teulu sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.
- Mae data HESA 2019-20 yn dangos mai nyrsio sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 26%, ac wedyn Bydwreigiaeth ar 24% a Gofal Cymdeithasol ar 22%. Meddygaeth a Deintyddiaeth sydd â'r % isaf, y naill a'r llall ar 13%. **Mae 20% o'r maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn siarad Cymraeg.**

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Arolwg Cenedlaethol Cymru	1	Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15, cyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol	Arolwg Cenedlaethol Cymru	https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-prif-ganlyniadau-ebrill-2014-i-mawrth-2015	14 Medi 2015	Prif Ganlyniadau	<p>Roedd yn well gan 17% o siaradwyr Cymraeg gyfathrebu yn Gymraeg â staff iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd 31% wedi defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol, ac nid oedd 69% wedi defnyddio'r Gymraeg fel hyn. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi cael ei chasglu am y ddarpariaeth Gymraeg weithredol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Pan ofynnwyd ym mha iaith y byddai'n well ganddyn nhw gyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol, % y siaradwyr Cymraeg (a phob person), Cymru, 2014-15, roedd 50% o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg neu'n fodlon y naill ffordd neu'r llall, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dynn ar ei sodlau ar 43%. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 37%, a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar 20%. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd â'r canrannau isaf, sef 19%, 16% ac 14% yn y drefn honno. Mae hyn yn dilyn patrwm Cyfrifiad 2011 ar gyfer siaradwyr Cymraeg ym mhob Bwrdd Iechyd.</p> <p>Pan ofynnwyd a oedden nhw wedi cyfathrebu'n Gymraeg â staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 45% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwneud hynny, a 44% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd 24% wedi gwneud hynny ym Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, ac 14% yn Abertawe Bro Morgannwg. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd â'r ganran isaf, sef 10%, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 12%.</p>

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Cyfrifiad Poblogaeth	1	'Ability to speak Welsh by industry' (DC2611WA)	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	www.nomisweb.co.uk/ census/2011/dc2611wa	29 Tachwedd 2013	Set ddata	<p>Mae'r tabl hwn yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau Cymraeg pobl 16 oed neu hŷn, a oedd yn byw yng Nghymru ac ym myd gwaith yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, yn ôl diwydiant. Mae hyn yn cynnwys pobl a oedd yn gweithio yn maes 'Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol'. Nid yw ar gael yn rhwydd ar lefel fwy manwl.</p> <p>O blith y bobl 16 oed neu hŷn a oedd yn byw yng Nghymru ac yn gweithio ym maes 'Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol' yn yr wythnos cyn Cyfrifiad 2011, roedd 16% yn gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu ag 17% ar draws pob diwydiant.</p>
Cyfrifiad Poblogaeth	1	Ability to speak Welsh by occupation (DC2612WA)	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	www.nomisweb.co.uk/ census/2011/dc2612wa	29 Tachwedd 2013	Set ddata	<p>Mae'r tabl hwn yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau Cymraeg pobl 16 oed neu hŷn, a oedd yn byw yng Nghymru ac ym myd gwaith yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, yn ôl galwedigaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl a oedd yn gweithio mewn 'Galwedigaethau proffesiynol' a 'Galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill', er enghraifft. Nid yw ar gael yn rhwydd ar lefel fwy manwl.</p> <p>O blith y bobl 16 oed neu hŷn a oedd yn byw yng Nghymru ac yn gweithio mewn 'Galwedigaethau proffesiynol', er enghraifft, yn yr wythnos cyn Cyfrifiad 2011, roedd 21% yn gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu ag 17% ar draws pob galwedigaeth.</p>

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Cyfrifiad Poblogaeth	1	Age by industry by Welsh language skills (Awdurdodau Unedol yng Nghymru)	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	https://cy.ons.gov.uk/ peoplepopulationandcommunity/ populationandmigration/ populationestimates/ adhocs/14388ct12042011census	11 Mawrth 2022	Set ddata	<p>Mae'r tabl hwn yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2011 sy'n dosbarthu'r holl drigolion arferol a oedd yn 16 oed neu'n hŷn ac ym myd gwaith yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad, yn ôl oedran yn ôl diwydiant (categori wedi'i ddewis a'r gweddill) yn ôl sgiliau Cymraeg (manwl) ar gyfer Awdurdodau Unedol yng Nghymru ar ddiwrnod y cyfrifiad (27 Mawrth 2011).</p> <p>Yng Ngwynedd (48%), Ynys Môn (33%) a Sir Gaerfyrddin (70%) y mae'r % uchaf o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg. Yng Nghaerdydd y mae'r % uchaf sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg (13%).</p>
Cyfrifiad Poblogaeth	1	Age by industry by Welsh language skills (Byrddau Iechyd Lleol)	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	https://cy.ons.gov.uk/ peoplepopulationandcommunity/ populationandmigration/ populationestimates/ adhocs/14388ct12042011census	11 Mawrth 2022	Set ddata	<p>Mae'r tabl hwn yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2011 sy'n dosbarthu'r holl drigolion arferol a oedd yn 16 oed neu'n hŷn ac ym myd gwaith yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad, yn ôl oedran yn ôl diwydiant (categori wedi'i ddewis a'r gweddill) yn ôl sgiliau Cymraeg (manwl) ar gyfer Awdurdodau Unedol yng Nghymru ar ddiwrnod y cyfrifiad (27 Mawrth 2011).</p> <p>Yng Ngwynedd (48%), Ynys Môn (33%) a Sir Gaerfyrddin (70%) y mae'r % uchaf o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg. Yng Nghaerdydd y mae'r % uchaf sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg (13%).</p>

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Cyfrifiad Poblogaeth	1	Cyfrifiad Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	I'w gadarnhau	Cyfrifiad o'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, sgiliau Cymraeg meddygon teulu, byrddau iechyd yng Nghymru, Medi 2014, https://llyw.cymru/ gweithlu-gofal-sylfaenol-ar-iaith- gymraeg	2014	Set ddata	<p>Meddygon Teulu ar y Rhestr o Berfformwyr Meddygol a oedd wedi rhestru'r Gymraeg fel iaith roedden nhw'n gallu ei siarad, gan gynnwys pob lefel o ruglder, o'r lefel sylfaenol i'r lefel rhugl. Dydy'r data yma ddim yn cynrychioli nifer y meddygon teulu sy'n cynnal ymgynghoriadau drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.</p> <p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sydd â'r nifer uchaf o feddygon teulu sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, gyda 9.5, ac wedyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 8.4. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 7.6, a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar 7.1. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 6.0. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd â'r gyfradd isaf, gyda 5.1. At ei gilydd, mae gan Gymru 6.6 o feddygon teulu sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Nid yw'r data diweddaraf wedi cael eu cyhoeddi eto oherwydd COVID-19, ond mae gan Lywodraeth Cymru y data. Mae'r data'n cael eu casglu bob chwarter, ac mae'r ddarpariaeth yn edrych yn dda (mae rhywfaint o ddata ar goll), ond dydy'r data ddim wedi cael eu dilysu'n drylwyr eto. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r data hyn naill ai yn y datganiad nesaf ddiwedd mis Ionawr 2022, neu'r datganiad dilynol sydd wedi'i amserlennu ar gyfer diwedd mis Ebrill 2022 ar hyn o bryd. Y bwriad yw cyflwyno WNWRS mewn proffesiynau meddygol eraill.</p>

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Gofal iechyd	1	Arolwg 2019 o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu	I'w gadarnhau	https://llyw.cymru/gweithlu-gofal-sylfaenol-ar-iaith-gymraeg	2019	Set ddata a chrynodeb manwl	<p>Arolwg a gynhaliwyd yn y gorffennol i edrych ar y defnydd o'r Gymraeg mewn practisau meddygon teulu, fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynllun <i>Mwy na geiriau</i>. Y nifer terfynol o ymatebion oedd 251 – cyfradd ymateb o 61.1% (411 practis).</p> <p>Does gan y rhan fwyaf o bractisiau (86%) ddim polisi ar gyfer pa iaith neu ieithoedd y dylai staff eu defnyddio wrth ateb y ffôn. Dydy dros hanner y staff sy'n gallu siarad Cymraeg ddim yn gwisgo bathodyn/laniard iaith Gwaith. Mae gan oddeutu hanner y practisau o leiaf aelod o staff derbynfa sy'n gallu siarad â chleifion yn Gymraeg. Mae hyn yn amrywio o 94% yn Hywel Dda i 8% yn Aneurin Bevan. Yn ôl yr ymatebion clwstwr, mae hyn yn bron i 100% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn ardaloedd fel Gwynedd ac Ynys Môn. Mae 75% o bractisiau wedi dweud bod ganddyn nhw ddigon o staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion ieithyddol eu cleifion. Roedd 79% yn teimlo bod ganddyn nhw ddigon o feddygon teulu sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion ieithyddol eu cleifion. Mae gan hanner y practisau feddyg teulu sy'n gallu darparu ymgynoriadau clinigol yn Gymraeg. Mae hyn yn amrywio o 37% yn Aneurin Bevan i 65% yn Hywel Dda. Roedd 6% o bractisiau wedi ariannu neu ryddhau staff i ddilyn hyfforddiant ar sgiliau Cymraeg yn ystod y tair blynedd flaenorol. Doedd 58% o'r practisiau ddim yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar y pryd. Roedd 19% yn ymwybodol ohono ac wedi'i weithredu, neu wedi'i weithredu'n rhannol. Roedd y rhan fwyaf o'r practisau (76%) wedi cadarnhau dewis iaith rhai cleifion (roedd 26% wedi cadarnhau dewis iaith y rhan fwyaf o gleifion neu bob claf). Byddai gan 77% o bractisiau ddiddordeb mewn cael rhagor o arweiniad a chefnogaeth ar y 'Cynnig Rhagweithiol'.</p>

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Gofal iechyd	1	Gwasanaethau Deintyddol y GIG, Ebrill 2020-Mawrth 2021		<u>Gwasanaethau deintyddol y GIG: Ebrill 2020 i Fawrth 2021 LLYW. CYMRU</u>	2021	Set ddata ac adroddiad	<p>Ar 14 Gorffennaf 2021, roedd 148 o ddeintyddion a oedd yn siarad Cymraeg yng Nghymru, yn ôl y Rhestr o Berfformwyr Deintyddol.</p> <p>Mae hyn yn gyfystyr â 2.6 o ddeintyddion sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a 0.5 fesul 10,000 o bobl yng Nghymru.</p> <p>Mae hyn yn amrywio rhwng ardaloedd byrddau iechyd. Cwm Taf Morgannwg sydd â'r nifer uchaf o ddeintyddion sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o siaradwyr Cymraeg, gyda 6.8, ac Aneurin Bevan sydd â'r nifer isaf, sef 1.1. Cwm Taf Morgannwg sydd hefyd â'r nifer uchaf o ddeintyddion sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o bobl, gyda 0.7, ac mae gan Betsi Cadwaladr yr un nifer; Aneurin Bevan sydd â'r nifer isaf, sef 0.1</p>
Addysg uwch	1	Data 2019-20 yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch	Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch	I'w gadarnhau	2020	Set ddata	<p>Dadansoddiad o'r proffesiynau meddygol sy'n cael eu hastudio yn ôl % o siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Nyrsio sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 26%, ac wedyn Bydwreigiaeth ar 24% a Gofal Cymdeithasol ar 22%. Meddygaeth a Deintyddiaeth sydd â'r % isaf, y naill a'r llall ar 13%. Yn y set ddata yma, mae 20% ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol yn siarad Cymraeg.</p>

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Cyfrifiad Poblogaeth	2	Cyfrifiad 2011 ac Arolwg Defnydd Iaith, % y siaradwyr Cymraeg fesul Bwrdd Iechyd	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	Cyfrifiad 2011, https://llyw.cymru/ gweithlu-gofal-sylfaenol-ar-iaith- gymraeg	2011	Set ddata ac adroddiad	<p>Gwelir amrywiadau mawr mewn rhai byrddau iechyd, sy'n tueddu i sefydlogi wrth edrych ar gyfartaledd yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cynnwys ardaloedd sydd â lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg (Ynys Môn a Gwynedd), lefelau cyfartalog (Conwy a Sir Ddinbych), a lefelau isel (Sir y Fflint a Wrecsam).</p> <p>Ar draws pob oedran, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd â'r ganran uchaf yn 2011, sef 36.7%, ac wedyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 30.8%. Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar 18.6%, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 12.0%. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 11.6%, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 11.0%. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd â'r % isaf, sef 9.9%. At ei gilydd, 19.0% oedd canran Cymru.</p> <p>Wrth gymharu â'r canrannau o bob oedran yn 2001, dim ond Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd wedi cynyddu, gyda 9.7% o gynnydd. Nodwyd gostyngiadau ym mhob Bwrdd Iechyd arall, y mwyaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a oedd wedi gostwng 8.5%. Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys wedi gostwng 7.1%, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gostwng 7.0%. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gostwng 2.9%, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi gostwng 2.0%. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y gwelwyd y lleiaf o newid, a oedd wedi gostwng 0.5%. At ei gilydd, roedd Cymru wedi gostwng 3.5%.</p>

Categori/ Elfen Chwilio	Blaen- oriaeth 1, 2, 3.	Teitl	Awdur	Cyfeiriad	Blwyddyn Cyhoeddi	Math o gyhoeddiad	Crynodeb a Nodiadau
Adroddiad Llywodraeth Cymru	3	Y gweithlu gofal sylfaenol a'r iaith Gymraeg, crynodeb	Llywodraeth Cymru	https://llyw.cymru/gweithlu-gofal-sylfaenol-ar-iaith-gymraeg	22 Mehefin 2016	Adroddiad	<p>Nod yr adroddiad hwn yw darparu data sylfaenol ar y galw am y Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae'n seiliedig ar amrywiaeth o wahanol ffynonellau, a amlinellir yn y ddogfen hon mewn cofnodion ar wahân.</p> <p>Yn 2013 cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymholiad i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol yng Nghymru. Y nod oedd ymchwilio i brofiad siaradwyr Cymraeg a oedd yn derbyn, neu ddim yn derbyn, gwasanaethau Cymraeg gan ddarparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru. Roedd adroddiad terfynol yr ymholiad yn argymhell cynhyrchu ystadegau sylfaenol ynghylch gwasanaethau gofal sylfaenol sydd ar gael yn Gymraeg.</p>
Gofal iechyd	3	Galwadau i Galw lechyd Cymru, 2014-15	Galw lechyd Cymru	https://llyw.cymru/gweithlu-gofal-sylfaenol-ar-iaith-gymraeg	2015	Set ddata	<p>Mae llinell gymorth Galw lechyd Cymru yn ateb galwadau yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn mwy na 120 o ieithoedd eraill drwy linell iaith. Yn ogystal â'r brif llinell gymorth 0845, mae'n delio â galwadau brysbennu sy'n cael eu trosglwyddo gan adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac yn darparu llinell wybodaeth am faterion deintyddol.</p> <p>Ar gyfer chwarteri yn 2014 a 2015, roedd cyfran y galwadau Cymraeg yn amrywio o 0.5% i 0.7%.</p>
Y Galw	3	Dechrau'n Deg, Ebrill 2020 – Mawrth 2021	Llywodraeth Cymru	https://llyw.cymru/dechraun-deg	25 Tachwedd 2021	Set ddata	<p>Data a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar nifer y plant sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg lle mai'r Gymraeg yw eu hiaith gyntaf. Does dim data ynghylch a oedd y gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg, ond mae'n bosibl y bydd hyn yn rhoi rhyw syniad o'r 'galw' posibl.</p> <p>3% oedd canran y llwyth achosion lle'r oedd plant yn dod o deuluoedd lle mai'r Gymraeg oedd yr iaith gyntaf. Doedd hyn heb newid rhyw lawer ers y flwyddyn flaenorol.</p>

Rhestr o Fyrfoddau ac Acronymau

Talfyriad	Disgrifiad
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
GCC	Gofal Cymdeithasol Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
HESA	Higher Education Statistics Agency (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch)
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
WNWRS	Wales National Workforce Reporting System (System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru)